**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Andrea Coscelli CBE
Prif Weithredwr
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

14 Gorffennaf 2021

Annwyl Mr Coscelli,

Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Parthed eich gohebiaeth â'm rhagflaenydd, Mr Mick Antoniw, ym mis Mawrth eleni, mae Pwyllgorau'r Senedd bellach wedi'u sefydlu yn dilyn Etholiad Cyffredinol y Senedd ym mis Mai. Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn cyflwyno fy hun fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.

Yn y llythyr a anfonwyd gennych at fy rhagflaenydd, gwnaethoch nodi y byddai ymgysylltu â'r Senedd yn bwysig wrth i Swyddfa'r Farchnad Fewnol baratoi i ddechrau ar ei gwaith. Gwnaethoch nodi hefyd fod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau yn ymwneud â sut y bydd yn mynd ati i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r farchnad fewnol. Rwy'n nodi bod yr ymgynghoriad wedi agor ym mis Mehefin, a bod disgwyl iddo gau yn fuan iawn.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â chi yn fuan mewn perthynas â'r gwaith y mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ei wneud i sefydlu Swyddfa'r Farchnad Fewnol, gan gynnwys unrhyw adborth y gallwch ei ddarparu ynglŷn â chanlyniadau'r ymgynghoriad. Rwyf wedi gofyn i Glerc y Pwyllgor gysylltu â'ch swyddfa i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd